

Ynni Cymunedol Cyflwr y Sector 2024



Noddir gan



Cynhyrwyd gan




Am yr ymchwil



Mae ymchwil Cyflwr y Sector Ynni Cymunedol wedi darparu dealltwriaeth o sector ynni cymunedol y DU i ni er 2017. Mae'r trosolwg hwn o'r sector yn canolbwyntio ar gynnydd a wnaethpwyd yn 2022 a 2023, gan ein bod wedi peidio â gwneud ymchwil yn y DU y llynedd er mwyn i ni allu creu porth ar-lein newydd i gasglu data gan sefydliadau ynni cymunedol (cyhoeddodd Ynni Cymunedol Cymru adroddiad ar Gyflwr y Sector yng Nghymru yn 2023). Bwriadwn i'r trosolwg hwn ddarparu dealltwriaeth i ddarllenwyr o faint ac effaith y sector ynni cymunedol ledled y DU drwy ystod o ystadegau a rhifau. Yn ddiweddarach yn 2024, byddwn yn cyhoeddi ffeithlun manylach yn adrodd stori ynni cymunedol, ac yn cynnig rhagor o fanylion am gynnydd, cyfleoedd a heriau'r sector.

Mae'r trosolwg, a gyhoeddwyd yn gynnar ym mis Gorffennaf 2024 ar adeg bwysig i'r sector ynni cymunedol, yn dangos bod y sector ynni cymunedol yn dal i dyfu ac amrywio, â sefydliadau newydd yn cael eu sefydlu, swyddi'n cael eu creu a chyfraniadau i economïau lleol yn tyfu. Mae ynni cymunedol yn cynhyrchu mwy o drydan adnewyddadwy nag erioed o'r blaen, mae'n annog mwy a mwy o bobl i wneud gwelliannau i'w tai er mwyn defnyddio ynni'n fwy effeithlon, ac mae'n parhau i leihau biliau defnyddwyr drwy roi cyngor am ynni a lleihau tlodi tanwydd. Os edrychwn i'r dyfodol, mae gan y sector gyflenwad da o brosiectau newydd, gwasanaethau, buddsoddiad, datblygiadau arloesol a sefydliadau newydd, ond byddai cael gwared ar nifer o rwystrau sy'n achosi i brosiectau gael eu dal yn ôl yn galluogi'r sector i wneud llawer mwy.



Bu Ynni Cymunedol Cymru, Community Energy Scotland a Community Energy England yn casglu a dadansoddi data ac yn cyflwyno adroddiadau ym misoedd Ebrill a Mai 2024, ac rydym yn ddyledus i'r sefydliadau ynni cymunedol a gymerodd amser i gwblhau'r arolwg. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn sail i'r adroddiad hwn. Ategir y set ddata gan ddata a gasglwyd gan sefydliadau eraill, drwy arolygon blaenorol o Gyflwr y Sector, ac ymchwil wrth ddesg.

Noddir y trosolwg o Gyflwr y Sector yn y DU yn 2024 gan SP Energy Networks a chafodd ei ddatblygu ochr yn ochr ag adroddiadau ymchwil ynni cymunedol rhanbarthol eraill ar ran SP Energy Networks, Electricity North West, Northern Powergrid a Scottish and Southern Energy Networks. Mae'r safbwyntiau sydd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau o'r arolwg Cyflwr y Sector ac adborth gan aelodau o Ynni Cymunedol Cymru, Ynni Cymunedol Lloegr ac Ynni Cymunedol yr Alban, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn noddwyr yr adroddiad.

Hawlfraint © 2024 Ynni Cymunedol Cymru, Ynni Cymunedol Lloegr ac Ynni Cymunedol yr Alban. Cedwir pob hawl. Gellir defnyddio neu atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn ei gyfanrwydd, neu ran ohono, cyn belled bod cyfeiriad priodol ato yn cael ei gynnwys ym mhob copi neu drawsyrriad.

Noddir gan



Cynhyrchwyd gan




Rhagair gan y noddwr

Mae SP Energy Networks yn falch o noddi adroddiad 'Ynni Cymunedol: Cyflwr y Sector' am y drydedd flwyddyn yn olynol. Yn ystod y tair blynedd diwethaf bu twf ac arloesi sylweddol yn y sector ynni cymunedol, fel y gwelir yn yr adroddiad hwn.

Er gwaetha'r heriau sy'n cael eu hachosi gan y dirwedd economaidd-gymdeithasol bresennol, yn ogystal â dod â mecanweithiau cefnogi i ben, mae'r sector wedi parhau i ddatblygu a gosod cyfarpar trydan adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned, gan gynnwys prosiectau solar ffotofoltaig, gwynt a hydro. Mae ychwanegu'r prosiectau hyn wedi helpu i gyfrannu llawer iawn o ynni a manteision i gymunedau ledled y DU.

Fel perchennog a gweithredwr rhwydwaith trydan, ein rhwydwaith trydan yw asgwrn cefn system drydan y DU. Mae'n cysylltu cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy a'u trydan gwyrdd, glân â'r grid, ac yn cludo'r trydan hwn yr holl ffordd i'n cartrefi a'n busnesau bob diwrnod. Mae'r rhwydweithiau hyn yn hanfodol i uchelgais y wlad i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Yr unig ffordd y gallwn sicrhau dyfodol o'r fath yw drwy weithio gyda'n gilydd i newid y ffordd rydym yn defnyddio trydan, fel unigolion ac fel cymunedau.

Drwy hyrwyddo ynni cymunedol, gallwn helpu cymunedau i chwarae rhan ragweithiol yn eu system ynni, gan weithredu prosiectau sy'n amrywio o gynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol i welliannau effeithlonrwydd ynni, trafniadaeth gymunedol garbon isel a gwefru cerbydau trydan. Bydd y rhain i gyd yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol uniongyrchol i'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau.



Liam Cantwell
Rheolwr Ynni Cymunedol
SP Distribution



Louise Taylor
Rheolwr Ynni Cymunedol
SP Manweb

Noddir gan



Cynhyrchwyd gan



Ynni cymunedol yn y DU 2023



Noddir gan



CYNHYRCHIANT YNNI ADNEWYDDADWY


CYFANSWM CAPASITI YNNI ADNEWYDDADWY

398 MW capasiti

CYFANSWM CYNHYRCHIANT TRYDAN ADNEWYDDADWY

617 GWh yn 2023


sy'n cyfateb i weru **228,530** o aelwydydd domestig



CYFANSWM ARBED TUNNELL O ALLYRIADAU CARBON

Arbedwyd **165,980** tCO₂ yn 2023

allyriadau cyfatebol i hedfan yn ôl ac ymlaen o Lundain i Efrog Newydd 209,570 o weithiau.
Ar gyfartaledd, mae hedfan o Lundain i Efrog Newydd yn meddwl tua 792 kg o CO₂ fesul teithwr.



Mae ein harolwg wedi esblygu dros amser felly ni chasglwyd yr holl ystadegau yn y blynyddoedd cynharach

CYLLID & BUDDSODIAD

CYFANSWM TROSIANT SEFYDLIADOL

trosiant **£43.2** m

CYFANSWM BUDDSODDIAD WEDI'I SICRHAU


£24 miliwn o fuddsoddiad wedi'i sicrhau yn 2023

£225 miliwn o fuddsoddiad wedi'i sicrhau ers 2017

GWEITHWYR & GWIRFODDOLWYR

CYFANSWM NIFER O SWYDDI YN Y SECTOR


796 yn gyflogedig ar hyn o bryd



102 o swyddi newydd yn 2023

CYFANSWM GWIRFODDOLWYR YN Y SECTOR

3,719 o wirfoddolwyr



ECONOMI LLEOL

CYFRANIAD ARIANNOL I'R ECONOMI LLEOL

£12.9 miliwn wedi ei gyfrannu

i economïau lleol o wariant sefydliadol a chronfeydd budd cymunedol


BUDDSODDIAD A GODWYD GAN GYMUNEDAU LLEOL

£6.4 miliwn a fuddsoddwyd gan gymunedau yn 2023

SEFYDLIADAU

SEFYDLIADAU YNNI CYMUNEDOL YN Y SECTOR

583 sefydliad



123 sefydliad sy'n darparu cyngor ynni

111 sefydliad sy'n darparu trafniadaeth carbon isel

319 sefydliad sy'n darparu ôl-osod effeithlonrwydd ynni

CYFANSWM AELODAU SEFYDLIADAU YNNI CYMUNEDOL


69,500 o aelodau



EFFEITHLONRHYDD YNNI A THLODI TANWYDD

ARBEDIION BILIAU O EFFEITHLONRHYDD YNNI A CHYNGOR YNNI

£4.4 m arbedion biliau



£13.8 miliwn o arbedion ers 2020

YN YR ARFAETH

PARHAU GYDA AMRYWIAETH Y SECTOR

72 o wasanaethau cyngor ynni ac effeithlonrwydd ynni

RHAGOLYGN CYLLID

£157 miliwn o fuddsoddiad gan gymunedau ar gyfer ynni adnewyddadwy

YNNI ADNEWYDDADWY WEDI'U HATAL

79 o brosiectau gyda wedi'u hatal capasiti o **270** MW

y mae cymunedau eisiau eu cyflawni



Cynhyrchwyd gan



Y dirwedd polisi bresennol

Mae ynni cymunedol yn defnyddio penderfyniad, dyfeisgarwch ac arian y gymuned i osod cyfarpar cynhyrchu a storio ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned, darparu gwasanaethau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, darparu addysg, hyfforddiant a swyddi gwyrdd, prosiectau trafniadaeth carbon isel, a mwy. Mae'r adroddiad hwn yn dangos y gall y sector wneud gwaith gwych i gymunedau ledled y DU, hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd iawn. Os yw'n cael ei gefnogi'n briodol, gall ynni cymunedol gynyddu ei gapasiti yn gyflym iawn i helpu i drawsnewid ynni i sero net.

Mae'r rhifau sydd yn yr adroddiad hwn, ar gyfer 2022 a 2023, yn adlewyrchu cyfnod pan wnaeth llywodraeth flaenorol y DU fwy i atal ynni cymunedol nag i'w gefnogi. Rhoddodd gwahanol systemau cyllido, yn enwedig cyllid CARES yn yr Alban, gyfleoedd gwahanol, a mwy yn aml, i'r sector yng Nghymru a'r Alban. Yn Lloegr, rhoddwyd y gorau i dderbyn ceisiadau i'r Gronfa Ynni Cymunedol Gwledig ym mis Mawrth 2022. Nid oedd mynediad at gyllid datblygu ar gael ar gyfer prosiectau trefol yn Lloegr, ac eithrio lle'r oedd llywodraethau lleol fel Awdurdod Llundain Fwyaf a rhai bwrdeistrefi yn Llundain yn gyfrifol am Gronfeydd Ynni Cymunedol.

Er hyn, roedd sector y DU yn dangos twf iach wedi'i fesur mewn capasiti ynni adnewyddadwy a osodwyd. Yn 2021, gosodwyd 7.6 MW, yn cynrychioli twf o 2.4% o'i gymharu â 2020. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gosodwyd 61 MW, sy'n cynrychioli twf blynyddol o fwy na 9%. Tyfodd swyddi 7% y flwyddyn. Mae nifer y sefydliadau ynni cymunedol, gwirfoddolwyr ac aelodau ar gynnydd. Mae'r swm sy'n cael ei arbed ar filiau ynni o ganlyniad i effeithlonrwydd ynni a gwaith tlodi tanwydd ar gynnydd. Mae buddsoddiad ar gynnydd. Mae'r cynlluniau sydd yn yr arfaeth yn y sector yn gryf.

Mae ynni cymunedol yn wydn, yn entrepreneuriaidd ac yn tyfu. Gellid hybu'r twf hwn ymhellach drwy newidiadau i reoliadau, cysylltiadau â'r grid, a rhwystrau eraill a allai ryddhau 79 o brosiectau sydd wedi cael eu dal yn ôl, sy'n cynrychioli 270 MW o gapasiti.

Drwy ei sgil a'i benderfyniad, mae'r sector wedi tyfu mewn cyfnod o gyllid cyhoeddus cyfyngedig, cyfraddau llog uchel a rhwystrau polisi. Nawr, rydym yn falch o groesawu 'gwawr newydd' i ynni cymunedol. Adlewyrchir uchelgais ac ymrwymiad ymarferol Llafur i sero net mewn targedau fel 'pŵer glân erbyn 2030', a dyblu ynni gwynt ar y tir (yn cael ei alluogi o ganlyniad i ddod â gwaharddiad y Ceidwadwyr yn Lloegr i ben yn fuan), addewid i sicrhau pedair gwaith cymaint o ynni solar, a'r Cynllun Pŵer Lleol. Mae hyn yn ymrwymiad i roi pobl wrth graidd trawsnewid ynni â hyd at £1 biliwn y flwyddyn ar gyfer gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn lleol, drwy £400 miliwn mewn benthyciadau llog isel i gymunedau a £600 miliwn mewn grantiau i awdurdodau lleol.

Yn 2023, sefydlodd y llywodraeth Geidwadol Gronfa Ynni Cymunedol gwerth £10 miliwn ar gyfer Lloegr. Yng Nghymru, datblygwyd Ynni Cymru â chyllideb gyfalaf o £10 miliwn i gefnogi prosiectau cymunedol, a chenhadaeth a oedd yn gyson â GB Energy. Mae'r rhain wedi caniatáu i'r sector gynyddu ei weithgaredd. Mae'r cyfle a gyflwynir gan Lafur yn llawer iawn mwy: dyblodd maint y sector ynni cymunedol bob blwyddyn rhwng 2014 a 2017; disgwylir y bydd yn tyfu'n gyflym iawn eto nawr.

Mae Ynni Cymunedol Cymru, Ynni Cymunedol Lloegr ac Ynni Cymunedol yr Alban yn edrych ymlaen at weithio gyda llywodraeth newydd y DU er mwyn cyflawni ei huchelgeisiau ar gyfer yr hinsawdd.

Noddir gan



Cynhyrchwyd gan



Amdanom

Rydym yn gwahodd pob sefydliad sy'n gweithio ym maes ynni cymunedol, neu sy'n cefnogi ynni cymunedol, i ymuno â ni, er mwyn cryfhau ein llais cyfunol a'n galluogi i'ch cynrychioli yn ein gwaith i ddatblygu a chefnogi'r sector. Mae manylion ynglŷn â sut i ymuno â ni i'w gweld isod.



Community Energy Scotland

Mae Ynni Cymunedol yr Alban yn arbenigwr ynni cymunedol sydd wedi ymrwmo i ddarparu cymorth annibynnol a pharhaus i gymunedau ledled yr Alban i'w galluogi i ddatblygu eu prosiectau ynni eu hunain.

Mae ein haelodaeth yn ddi-dâl i holl sefydliadau ynni cymunedol yr Alban a chefnogwyr unigol, ac mae'n darparu cyfleoedd i sefydliadau ymgynghori â'n tîm, rhwydweithio â sefydliadau eraill sy'n aelodau, a derbyn gwybodaeth sy'n ymwneud ag ynni cymunedol yn rheolaidd.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

-  07920 182308
-  info@communityenergyscotland.org.uk
-  @CES_Tweet
-  www.communityenergyscotland.org.uk//membership

Community Energy England

Ynni Cymunedol Lloegr yw llais y sector ynni cymunedol yn Lloegr, yn helpu i greu tirwedd polisi gefnogol ar gyfer ynni cymunedol. Rydym hefyd yn helpu sefydliadau ynni cymunedol gweithredol i gysylltu, cydweithredu, rhannu arbenigedd a goresgyn rhwystrau, a hwyluso cydweithredu a buddsoddiadau newydd yn y sector.

Ymunwch â ni i ddangos eich cefnogaeth i fuddiannau ehangach y sector a'n gwaith er mwyn creu'r amodau lle gall ynni cymunedol ffynnu a thyfu.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:





-  033 3303 4126
-  info@communityenergyengland.org
-  @Comm1nrg
-  www.communityenergyengland.org/pages/membership

Ynni Cymunedol Cymru Community Energy Wales

Mae Ynni Cymunedol Cymru yn sefydliad nid-er-elw sy'n darparu cefnogaeth a llais i fudiadau cymunedol sy'n gweithio ar brosiectau ynni cymunedol yng Nghymru. Rydym eisiau helpu i greu amgylchedd yng Nghymru lle mae prosiectau ynni cymunedol yn gallu llewyrchu, a chymunedau'n cael eu dyrchafu.

Ein gweledigaeth: dylai pobl fod wrth galon y system ynni.
Ein cenhedaeth: I gefnogi a physuro'r newid tuag at system ynni deg, carbon isel, sydd wedi'i harwain gan y gymuned.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

-  02920 190260
-  info@communityenergywales.org.uk
-  @CommEnergyWales
-  ynnicymunedol.cymru/register